## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A458 (CYLCHFAN TAL-Y-BONT I FAN I'R DWYRAIN O DREBERFEDD, POWYS) (GWAHARDD CERBYDAU A BEICWYR DROS DRO) 2025

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A458, neu gerllaw iddi, rhwng Cylchfan Tal-y-bont a ffin Powys/Swydd Amwythig.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys, ar gyfer y gwaith neu gerbydau gwasanaeth cynnal a chadw y gaeaf) a phob beiciwr rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A458 sy'n ymestyn o ochr ddwyreiniol Cylchfan Tal-y-bont hyd at ffin Powys/Swydd Amwythig, i'r dwyrain o Dreberfedd.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain yw mynd ar yr A483 tua'r gogledd i Gylchfan Mile End, yr A5 tua'r de-ddwyrain i Gylchfan Churncote a'r A458 tua'r gorllewin: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 6 Hydref 2025. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol yn bennaf dros nos (19:00 o'r gloch tan 07:00 o'r gloch) o 6 hyd 20 Hydref 2025, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A458 TRUNK ROAD (BUTTINGTON ROUNDABOUT TO EAST OF MIDDLETOWN, POWYS) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES & CYCLISTS) ORDER 2025

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A458 trunk road between Buttington Roundabout and the Powys/Shropshire border.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services, for the works or winter maintenance service vehicles) and cyclists from proceeding on the length of the A458 trunk road that extends from the eastern side of Buttington Roundabout to the Powys/Shropshire border, east of Middletown.

The alternative route for eastbound traffic is via the northbound A483 to Mile End Roundabout, south-eastbound A5 to Churncote Roundabout and westbound A458: vice versa for westbound traffic.

The Order comes into force on 6 October 2025. The temporary prohibition is expected to operate mostly overnight (19:00 – 07:00 hours) from 6 – 20 October 2025, or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to be in force during the period specified above, it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Transport
Welsh Government